

Council

Cofnodion / Minutes

Oherwydd y Cofid-19, penderfynwyd i gynnal cyfarfod ar-lein
ar nos Fawrth, 25ain Mai 2021

*Due to Covid-19, it was decided to hold an online meeting.
on Tuesday 25th May 2021*

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Arwyn Jones **AJ** (Is-Cadeirydd / Vice Chairperson), Cyngorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Cenwyn Williams **CW**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**, Cyngorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

Yn absennol / Absent: Dim / None

Aelod o'r cyhoedd / Member of the public: Mrs Nia Hall **NH** (Ysgrifenyddes pwyllgor Y Ganolfan - *Secretary of Y Ganolfan's committee*)

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. / *The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.*

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

EWJ - 8.0.7 Llwybrau Cyhoeddus - Hysbyseb tendro i dorri'r a chynnal a chadw llwybrau cyhoeddus. Yn adnabod un o'r ymgeiswyr. / *8.0.7 Public Footpaths - Tender for the cutting and maintenance of public footpaths. Knows one of the candidates.*

3. Ysgrifenyddes pwyllgor Y Ganolfan / Secretary of Y Ganolfan's committee

Mrs Hall yn derbyn y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod heno i drafod Y Ganolfan. / *Mrs Hall accepts the invitation to attend the meeting tonight to discuss Y Ganolfan.*

Esboniodd **NH** i'r cyngorwyr fod angen mwy o aelodau ar frys ar bwyllgor y Ganolfan. Mae'r sefyllfa'n fregus iawn gyda dim ond dwy aelod ond yn deall ei bod yn anodd iawn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. / *NH explained to the councillors that the Ganolfan's committee urgently needs more members. The situation is very fragile with only two members but understand that it is very difficult to hold face to face meetings.*

Diolchwyd i **LH** y trysorydd am drefnu gwahanol grantiau ar gyfer y Ganolfan a hefyd am drefnu agor yr adeilad yn ddiogel ar ddiwrnod yr etholiad. / *LH the treasurer was*

thanked for arranging various grants for Y Ganolfan and also for arranging the safe opening of the premises on election day.

Nid oes unrhyw fwriad i ailagor yr adeilad yn y dyfodol agos ond, pan ddaw'r amser, bydd angen mwy o wirfoddolwyr ar y pwyllgor a chynllunio i agor yn iawn gan gynnwys creu asesiad risg a threfnu pwy fydd yn gyfrifol am gymryd drosdd yr archebion. / *There is no intention to re-open the building in the near future but, when the time comes, the committee will need more volunteers and plans to open properly including creating a risk assessment and arranging who will be responsible for taking over the bookings.*

Mae **NH** yn hapus i greu'r posteri i hysbysebu'r ailagor ac i ddenu mwy o gwirforddolwyr i'r Ganolfan. / *NH is happy to create the posters to advertise the re-opening and to attract more volunteer staff to Y Ganolfan.*

Gwahoddir **NH** i ymuno â ni ar ddechrau cyfarfod y mis nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr am Y Ganolfan. / *NH is invited to join us at the beginning of next month's meeting to give councillors an update on Y Ganolfan.*

4. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Elect Chairperson and Vice-chairperson

Oherwydd diffyg aelodau yn y cyfarfod heno, penderfynwyd i ohurio ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac yn dilyn trafodaeth, pasiwyd mai **ST** fydd yn aros yn Gadeirydd tan mis Medi 2021. / *Due to the lack of members at tonight's meeting, it was decided to defer the election of Chairperson and Vice Chairperson and following discussion, it was passed that ST would stay as the Chairperson until September 2021.*

Cynigwyd gan **EWJ**, Eiliwyd gan **AJ**. / *Proposed by EWJ, Seconded by AJ.*

5. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 27/04/21. / Minutes of last meeting 27/04/2021.

Derbyniwyd y cofnodion 27/04/2021 yn gywir, Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **LV**.
The minutes 27/04/2021 were confirmed correct, Proposed by AJ, Seconded by LV.
Fe'i cadarnhawyd gan **LV** trwy tecs bod y cofnodion yn gywir. / *It was confirmed by LV through text that the minutes are correct.*

6. Balans ar 01/05/2021. / Balance on 01/05/2021.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/05/2021)	-	£8,891.50
Cynilo "BMM" (ar 01/05/2021)	-	£ 7,000.03
	=	£15,891.53

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 20/05/2021. / Y Ganolfan Bank balance on 20/05/2021.

Cyfrif "Community" (ar 20/05/2021)	-	£ 6,961.50
Cynilo "BMM" (ar 20/05/2021)	-	£ 3,319.00
	=	£ 10,280.50

**Mae'r archwiliad cyfrifon Y Ganolfan wedi'i gwblhau gan yr archwilydd. / The audit of Y Ganolfan accounts has been completed by the auditor.*

7. Cyllid / Finance

7.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£1,017.77 - Zurich Municipal am yswiriant "5 year premium" am asedau y Cyngor a'r yswiriant yr adeilad Y Ganolfan. / Zurich Municipal for "5 year premium" insurance for the Council's assets and building insurance of Y Ganolfan.

£30.00 - Hyfforddiant ar-lein gan Un Llais Cymru i'r un o'r aelodau / Online training from One Voice Wales for one of the members

£600.00 - Cyfraniad blynyddol i Eglwys Llanidan am 2021 / Yearly contribution to Llanidan Church for 2021

7.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

Dim / None

7.3 Taliadau wedi Derbyn / Payments Received

£1.00 - Y Ganolfan yn talu eu rhent "Peppercorn" blynyddol. / Y Ganolfan pay their annual "Peppercorn" rent.

8. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

8.0.1 Cae Chwarae. / Playing field.

Mae'r siglen newydd i'r babanod wedi'i osod. / The new baby swing has been installed

Mae'r clerc wedi derbyn rhybudd o archwiliad blynyddol o'r offer yn y cae chwarae a'r cae peldroed. / The clerk has received notice of an annual inspection of the equipment in the playing field and football pitch.

8.0.2 Cae Pêl Droed / Playground Football Field

Mae angen gweithredu ar y materion coch yn yr asesiad risg mor fuan a phosib. / The red issues in the risk assessment need to be acted upon as soon as possible.

8.0.3 Mandad y banc / Bank mandate

Mae'r clerc bron â chwblhau'r ffurflen mandad y banc. Rydym yn aros i un aelod gadarnhau ei manylion personol. / The clerk is in the process of completing the mandate form. We are waiting for one member to confirm their personal details.

8.0.4 Chwyn tu cefn i tai Terfyn Terrace / Weeds behind houses of Terfyn Terrace

Y clerc yn aros am amcanbris. / The clerk is awaiting a quote.

8.0.5 Mynediad giat o lôn fawr / Gate access from the main road

Y clerc wedi derbyn llythyr gan twrna. Mae angen i ni drosglwyddo hwn i twrna ni. / The clerk has received a letter from the solicitor. We need to pass this onto our solicitor.

8.0.6 Hen adeilad llyfrgell Criccieth / *Criccieth old library building*

Mae'r clerc wedi derbyn e-bost gan Gadeirydd Clwb Cylch y Bryn a ddarllenwyd yn ystod y cyfarfod. Mae angen diolch iddo am ei sylwadau ac ydi hi'n bosib drefnu cyfarfod ar-lein i gynnwys Age Cymru? / *The clerk has received an email from the Chairman of Clwb Cylch y Bryn which was read during the meeting. He needs to be thanked for his comments and can we arrange an online meeting to include Age Cymru?*

8.0.7 Cynnal y Llwybrau Cyhoeddus yn ardal Llanidan. / *Maintaining Public Footpaths in the Llanidan area.*

Datganwyd diddordeb gan **EWJ**. Trafodwyd hwn ar ddiwedd y cyfarfod pan adawodd yr aelod y cyfarfod ar-lein. / *EWJ declared an interest. This was discussed at the end of the meeting when the member left the online meeting.*

Derbyniwyd tendr gan un person. Yn dilyn trafodaeth cytynwyd i dderbyn pris Mr Norman Jones o **£590.00** am wneud y gwaith. I ddechrau ar y gwaith 1af Mehefin 2021. Bydd angen torri yr ôl llwybrau am yr eildro ar gyfarwyddyd yr cyngor cymuned. / *We received tender from one person. Following a discussion it was agreed to accept Mr Norman Jones's price of £590.00 for the work. To start on the work on 1st June 2021. All paths will need to be cut again for the second time at the instruction of the community council.*

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **AJ**. / *Proposed by ST, Seconded by AJ.*

9. Cynllunio / Planning

9.1.1 Ceisiadau / Applications

S106/2021/4, 7 Stad Bryn Glas Estate, Brynsiencyn - Cais ar gyfer diwygio Cytundeb Adran 106 yn ymwneud a tai lleol fforddiadwy o ganiatad cynllunio 37C100B yn / *Application for the amendments of Section 106 Agreement in relation to affordable local housing of planning permission 37C100B at. Dim sylw. / No comment - Please refer to the policy.*

9.1.2 Penderfyniadau / Decisions

Dim / None

10. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

11. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

11.1 Adroddiad Cynghorydd **EWJ** / Councillor **EWJ** Report

Mae angen llongyfarch Cynghorydd Dafydd Roberts sydd wedi ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor am 2021/2022. / *We need to congratulate Councillor Dafydd Roberts who has been elected as the Council's Vice-Chairman for 2021/2022.*

Mae'r cynghorydd eisiau anfon ei gydymdeimlad gyda sawl teulu sydd wedi colli aelod yn ddiweddar. / *The councillor wants to send his condolences to the families who have lost a member recently.*

Mae angen hysbysebu am aelodau newydd ar gyfryngau cymdeithasol ynghyd â chreu poster i'w roi mewn mannau cyhoeddus. / *There is a need to advertise for new members on social media as well as creating a poster to put up in public places.*

Ydi hi'n bosib i greu gwefan newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned? / *Is it possible to create a new website for the Community Council?*

12. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

ST - Mae hi wedi sylwi bod graffiti wedi'i osod ar wal y safle bysiau ger Y Groeslon. / *She has noticed that graffiti has been placed on the wall of the bus stop near Y Groeslon.*

AJ - Mae wedi gweld gwydr potel wedi torri ym mhobman ar lawr yn y cae chwarae. / *He has seen broken bottled glass everywhere on a floor in the playground.*

13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

13.1 Nos Fawrth, 29/06/2021 am 6.30y.h. ar-lein.

Tuesday Evening, 29/06/2021 at 6.30pm online.

13.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.25y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.25pm.*